YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 4.] EBRILL 1919. [PRIS 2g.

.. CYNHWYSIAD. ..

EDYN FFYDD.

NODION Y MIS.

Y NOS.

LEWIS NOAH WILLIAMS, Y.H.

TEULU MERRIVALE, TEMPLETON

EMYNAU.

MARWGOFION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a goheb iaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Mourning Cards . . .

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— **LLANDYSSUL.** —

Flour Millers - - -
& Provender Millers, - -
Merchants, - - - -
Wholesale Grocers, &c. &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD. EBRILL, 1919. [CYF. XIX. RHIF 4.

AR EDYN FFYDD.

"CANMOL HEB WENIAITH, CERYDDU HEB DDICTER."

Ar drothwy bywyd wrth gychwyn i daith,
Cais fod yn ddidwyll a phur yn dy iaith,
Yn llwybrau uniondeb dos yn dy flaen,
Na fydd i'th gymdeithion i'w hystlys yn ddraen ;
Pleidia un wyneb o hyd drwy dy oes,
Cofleidia wirionedd, a rhinwedd a moes,
Canmol heb weniaith yw'r gamp o hyd,
Ceryddu heb ddicter wna cyfaill clyd.

Wrth gwrdd a chyfaill pan fyddi ar daith,
Dwed fel y teimli, mynega y ffaith,
Paid bod yn rhy debyg i gloc y dre',
A phedwar wyneb, mae hynny o'i le ;
Cais fod yn unplyg at bawb drwy dy oes,
Can's mae anwadalwch yn peri loes,
Canmol heb weniaith wna pob un sy'n ddyn,
Ceryddu heb ddicter yw'r ffordd i drin.

Wyneb agored yw'r wyneb iawn,
Pur ddarlun yw o ddynoliaeth lawn,
Calon ddiddichell sy'n creu wyneb llon,
Cariad dinagrith gynhesa'r fron ;
Nid ydyw gweniaith ond gwenwyn y fall,
Clogyn i gadw'r diniwed yn ddall,
Cashau y trosedd a ddylem o hyd,
Nid y troseddwr fel y gwneir yn ein byd.

MURMURYDD.

NODION Y MIS.

UNWAITH eto dychwelodd y Gwanwyn, gan anadlu'n fendithiol ar lwydni a llymder y wlad. Wele y dail yn dechreu glasu brigau coedydd, y glaswellt yn tarddu o'r ddaear, a llygaid y dydd yn bwrlymu ar ddolydd. Melus yw cân yr adar i groesawu'r wawr yn Ebrill, ac y mae swyn yng nghogor y frân asgellwrych, yr adeg yma o'r flwyddyn. Hi yw'r gynharaf o adar y goedwig i feddwl am garu, a phriodi, a magu teulu, a cheir ynddi gred reddfol mai er ei mwyn hi a'i theulu ystumogus y bwrw'r amaethwr had i'r ddaear.

* * *

Dro yn ol, meddyliais glywed ymgom fel hyn rhwng dwy frân yng nghanolbarth Ceredigion : " Gwell i ni beidio priodi eleni, f'anwylyd," meddai ef, mewn tôn ddwys, athronyddol, "y mae gwŷr y ceffylau bach yna wedi cludo pob coedwig i lowyr Morgannwg, ac nid oes un goeden o fewn can milltir yn ddigon cryf i ddal nyth a chwech o gywion, a darostyngiad enbyd fyddai i ni nythu mewn llwyn drain. Hefyd, mae'r prisiau yn uchel oherwydd y rhyfel, a'r amaethwyr yn gynddeiriog os edrychwn o hir-bell ar eu hâd." "Taw a'th ffregod," meddai hithau, "ni a briodwn yr wythnos hon pe byddai raid i ni i nythu mewn llwyn o eithin ; oni chofi di yr Ysgrythyr : " Ystyriwch y brain," &c. ; rhaid i ni roi esiampl i fechgyn a merched gwangalon Ceredigion rhag iddynt ofni wynebu y gwynfyd ffwdanus. Pa wedd fyddai ar y byd ped arhosai pawb yn ddibriod hyd benllwydni yn disgwyl am gyflawnder o datws ac ysgadan ?" Gorchfygodd yr ymresymiad hwn athroniaeth yr hen lanc ofnus. Heddyw, ceir nyth ffaglog mewn llwyn drain, lle bu coedwig fawreddog gynt, a dwy frân anturiaethus yn herio bwbachod a gynnau amaethwyr y wlad er cyflawni eu dyledswydd fel deiliaid o'r "byd esmwyth." Amaethwyr, byddwch dirion wrth y brain, a dysgwch ganddynt i roddi mwy o ymddiried yn y Rhagluniaeth a'u cynnal hwy a chwithau.

* * *

Y mae ambell genedl megys ambell ddyn yn gorfod wynebu mwy o anffodion ac o ddioddefaint nag eraill. Trist yw hanes y genedl Iddewig, yn enwedig yn y cyfnod Cristionogol. Collodd yr Iddewon eu gwlad yn gynnar, a gwasgarwyd hwy i bedwar cwr y byd. Oherwydd creulondeb yr awdurdodau yng Nghaersalem yn croeshoelio'r Iesu, disgynnodd melltith anheg y byd Cristionogol ar yr holl genedl ; hyd yn ddiweddar, erlidiwyd, yspeiliwyd a llofruddiwyd yr Iddewon yn holl wledydd Iwrop bron. Rhyfedd, o dan yr amgylchiadau hyn, iddynt gadw eu cenedlgarwch, eu hiaith a'u crefydd yn bur hyd heddyw. I mi, y mae pob synagog Iddewig yn arwydd-

lun o ddewrder, ffydd a ffyddlondeb i gydwybod, nid bychan. Ymddengys bod y Gynhadledd Heddwch ar fedr adfer eu gwlad gynefin o law'r Twrc i'r Iddewon. Bydd hyn yn llawenydd dirfawr i'r pedair miliwn ar ddeg sydd yn gwydriaid digaltref ar hyd y byd. Nid yw Palestina yn wlad ffrwythlon iawn, ond oherwydd ei hanes a'i chysylltiadau mae ei daear yn gysegredig i galon yr Iddew. Credaf hefyd y gofyn galluoedd y Gynhadledd i Brydain i gymeryd gofal a goruchwyliaeth y wlad, er amddiffyn iawnderau yr Iddewon. Boed hyn yn foddion i ddwyn Crist yn agosach i galon ein cenedl.

* * *

Yn ddiweddar traddododd y Prifathro Selbie, o Goleg Mansfield (Annibynwyr), Rhydychen, araith yng Ngholeg y Brenin, Llundain. Dywedodd bod gagendor fawr, beryglus, rhwng diwynyddiaeth y colegau a diwynyddiaeth pwlpudau'r wlad. Dylai pregethwyr roddi i'w cynulleidfaoedd, ac i athrawon yr Ysgolion Sul, y wybodaeth a ddysgwyd iddynt yn y colegau. Efallai y dywed y pregethwyr mewn amddiffyniad mai'r "sedd fawr" yw'r prif rwystr ar y ffordd i hyn. Mae'n syndod i rai o honom bod Cymru mor rhyddfrydig yn ei gwleidyddiaeth ac mor geidwadol yn ei diwynyddiaeth; ond peth prin yn hanes dyn yw cysondeb. Wedi'r cyfan, y mae crefydd y rhan fwyaf o ddynion yn well na'u diwynddiaeth, a chrefydd ymarferol dda sydd yn eisiau fwyaf yn y byd heddyw.

* * *

Hefyd, yng Ngholeg y Brenin, ar y 13eg o Chwefror, traddododd Deon Inge ddarlith ar "Deyrnas Dduw yn y byd." Dywedodd mai gwaith yr eglwysi yw lledaenu egwyddorion yr Efengyl, nid bod yn offerynnau gwleidyddol. Gwn i am rai sydd yn cadw draw o'r eglwysi am nad yw'r pregethwyr yn ymdrin a phynciau ymarferol y dydd, sef pynciau gwleidyddol. Gwn hefyd am eraill sydd wedi gadael yr eglwysi am fod y pregethwyr yn gwneud y pwlpudau yn llwyfanau gwleidyddol. Anhawdd bodloni pawb, ac nid gwaith hawdd yw eiddo'r pregethwr y dyddiau hyn, ag un ran o'r gynulleidfa yn clustfeinio am heresi ddiwynyddol neu wleidyddol, a'r rhan arall yn awyddu am y pethau gwaharddedig. Amhosibl yw tynnu llinell bendant rhwng crefydd a gwleidyddiaeth. Efallai bod eisiau gwleidyddio ychydig o grefydd ein heglwysi; 'rwy'n sicr bod eisiau crefyddoli cryn lawer o wleidyddiaeth y papurau dyddiol. Pell fyddwyf fi o geisio gosod deddf ar y mater—myn y gwir broffwyd draethu ei neges heb ofni'r canlyniadau.

* * *

Sonnir llawer y dyddiau hyn am uno'r eglwysi Protestanaidd a'u gilydd, a cheir rhai argoelion na fydd y Methodistiaid Wesleyaldd ac

Eglwys Loegr yn hir ar wahan. Nid yw'r gwahaniaeth rhwng eu hathrawiaethau ond dibwys. Defnyddir llyfr gwasanaeth Eglwys Loegr mewn llawer eglwys Wesleyaidd, ac yn yr olwg ar urddau eglwysig y gwahaniaethant fwyaf. Credaf y gallai llawer o'r enwadau iawnffyddol uno a'u gilydd heb drais ar gydwybod. Ar hyn o bryd Annibyniaeth sydd agosaf at Undodiaeth.

* * *

Colled fawr i Undodiaeth Cymru fu marwolaeth y cyfaill hawddgar L. N. Williams, U.H., o Aberdar. Yr oedd ei sel dros yr achos yn fawr, a'i haelioni yn helaeth. Profodd llawer o honom ei garedigrwydd a'i letygarwch yn ei gartref; a bydd cof diolchgar am danynt yn feddiant inni hyd nes y bydd i ninnau groesi'r llen i'w ail-gyfarfod.

* * *

Unwaith eto, mae ymweliadau'r Anwydwst yn drwm ac yn angeuol iawn yn y wlad hon, ac yn fwy felly mewn llawer o wledydd tramor. Yn rhai o ynysoedd tesog Samoa, yng nghanol y Mor Tawel, ysgubodd y plâ ugain o bob cant o'r trigolion. Felly, nid hinsawdd oer a gwlyb yn unig sydd yn gyfrifol am yr anhwyldeb. Y mae meddygon y wlad yn methu darganfod yr achos, ond ymddengys bod gan y rhyfel rywbeth i wneud a'r plâ.

EBRILL.

Daeth Ebrill dros y marian
I wisgo bryn a dol;
A swn ei glychau arian
I alw'r gwyrdd yn ol.

Daeth Ebrill heibio'r berllan
Fel proffwydoliaeth dlos;
A'i gwisg o awel sidan
Oedd yn tyneru'r nos.

Daeth Ebrill drwy y dyffryn
Fel rhian ddeunaw oed;
A blodau tlysa'r flwyddyn
Yn esgid dan ei throed.

Daeth Ebrill i'r gweirglodd-dir
I chware efo'r wyn;
A'r gwynt i ganu llawer cerdd
Ar leithion dannau'r brwyn.

Daeth Ebrill heibio beddrod
Myfanwy 'n erw'r Llan,
I ddweud wrth serch, drwy wyrdd a chân,
Fod Duw yn cofio'r fan.

EMYR.

Y NOS.

Mae'n hwyr ar lan Teifi, ac ar ei dyfroedd gloyw mae cysgod pob cwmwl. Rwyf innau ar ei glàn er i'w murmuron dawelu'r storm sydd yn fy mynwes, ond yn ei murmur clywaf furmur *afon arall* heno. Cilia'r haul yn araf dawel, a'i weddw a'i amddifaid bach yw'r lloer a'r ser. Disgynna'r glaw yn ddibaid fel dagrau brwd yr unig trist ar dorri'i galon, ac o mor falch yr ydwyf i o weled anian hithau'n wylo heno. Y mae pob cwmwl fel llong a'i hwyl yn ddu, a chofiaf innau hwyl-long unig —heno'n ddu—yn hwylio'i mordaith olaf. Mae wyneb anian yn welw brudd fel wyneb plentyn wrth edrych ar angladd, ac o syllu'n myw ei llygaid hawdd canfod deigryn a chydymdeimlad. Ni chwery'r awel yn y llwyn. Ni chlywir trydar yn y berth, ac wyla'r afon ei hiraethgân ar ei thaith i'r môr. Deil anian fud ei hanadl, cilia'r goleu llwyd welw. Mae'r niwl yn cau! Ni welir na rhos na lili na llygad y dydd. Un lliw yw coch a gwyn yn nu y nos. Mor dywyll ydyw—nid oes gwmwl mwy ond llen ddu anniddos. Y mae'n nôs; nôs ar lan Teifi—nôs yn yr ystafell gerllaw, a nôs yn fy enaid innau.

"Ne'er saw I, never felt a calm so
deep,
The river glideth at his own sweet
will;
Dear God, the very houses seem
asleep
And all that mighty heart is lying
still."

Gydol dydd aflonyddir ar fyfyrdod tawel dyn. Y mae cyfaill ambell dro yn *dresmaswr*. Y mae'r pyrth yn agored i liw ac arogl, i furmur afon neu ferw tre, ond "y mae distawrwydd y nôs," chwedl rhywun, "bron yn hyglyw, hanner sain ac hanner sisial," a chaiff dyn egwyl i edrych i'w galon ei hun, gan wrando nes clywed yr anghlywadwy, y llais distaw main sydd ynddo. Anghofir y materol. Blotir lliw a llun ymaith, ond teimlir calon wrth galon yn curo.

"Ac anniddig iawn oeddwn—gwyddwn ing
Gweddi nôs ar wndwn;
Enaid yn byw o dan bwn—a dolur
Arial o gysur awel a geisiwn."

Try dyn yn athronydd ar ei waethaf, a cheisia ddyfalu ac esbonio'r cymundeb agos rhwng dyn ac anian a oedd yn ysbrydoliaeth pob credo baganaidd. Yn y tywyllwch, yn y distawrwydd, yn y nôs y mae dyn yn unig, unig. Medr Natur gydymdeimlo mewn ambell fŵd, ond heno teimlaf fy mod wedi'm hangofio gan Dduw a dyn. Pistylla'r glaw. Cerddaf innau'n araf ar ei glan heb wybod ba funud y llithraf. Mor debig ydyw i afon angau a bywyd. Nid oes loches, ac ni cheisiaf un. Nid ydyw pob sain ond ochenaid ddistaw. Du yw'r nef, a du yw'r ddaear. Mae'n nôs!

* * *

Yng nghwsg ac effro, gwelaf ystafell wely un nôs ddu. Pe gwrandewid oddiallan ni chlywsid ond ubain y gwynt neu grochlef yr ystorm, ond pe gwrandewid yn yr ystafell, clywsid ochenaid ddistaw, rhyw gwyn hir a llais bloesg yw sibrwd y ffarwel olaf. Mor anesboniadwy yw'r cyfan! Du yw lliw gofid a galar. Du yw'r nôs, ond duach yr ystafell honno, a'r *ganwyll* wedi diffodd yma am byth. O edrych yn ol mewn hiraeth a dagrau, y mae rhyw ysbryd amau ynof. Dywedai'r Groegiaid gynt fod y sawl a garai'r duwiau yn marw'n gynnar. Dywedwn ninnau heddyw fod Duw yn galw ein hanwyliaid adref, ond o weled yr

ieuanc yn marw, o feddwl am y difrod a'r galar sydd yn ein byd heddyw, credaf mai pell ydym o'r golau eto.

O edrych ar ymweliad angau yn ein golau ni, y mae llawer marwolaeth yn *libel* ar gymeriad y Tad o'r nef, os mai Efe sydd yn galw adref, ond rywsut i mi daeth llais yn y nôs, gan ddywedyd, "*Nid oes a fynno Duw a marw dyn?*

Gwir mai yn unol a'i gyfreithiau Ef y croeswn ffin yr anwel, ond ymha ffordd yr esbonnir hunanladdiad neu lofruddiaeth, *case* o *Influenza* neu *Typhoid?* Ai Duw sydd yn galw, a hynny ar amrantiad? Ni choeliaf i mo hyn. I mi, damwain neu ddigwyddiad ydyw marwolaeth, anocheladwy, mae'n wir, ond nid oes marw gyda Duw. Ysbryd yw Efe a Thad yr Ysbrydoedd a byw. Nid yw o un gwahaniaeth iddo Ef p'un ai yn y corff ai allan o'r corff y mae'r ysbryd, p'un ai tu yma ai tuhwnt i'r llen y byddwn. B'le bynnag yr ym, yr ym gydag Ef.

"Dirgelion Tragwyddoldeb nis gwn i
Na dyall gair o'u hiaith nis medri di,
Soniant am danom ni tu hwnt i'r llen,
Ond pan ddisgynno'r lle, ble byddwn ni."

Rhwydd ydyw darlunio a dychmygu, ond y mae dychymyg dyn yn pylu o flaen gofyniad Omar Khayâm "Ble byddwn ni?" oherwydd clywn lais Duw yn ateb o weled ein darluniau amrwd a'n dychmygion ofer, "Tybiaist fy mod i yn gwbl fel tydi dy hun."

. . . . . Then black despair
The shadow of a starless night, was thrown
Over the world in which I moved *alone.*

yn unig—*alone*!

Mae nôs ystormus o aeaf yn ddu. Mae ystafell y ffarwel olaf yn ddu, ond duach nôs yr enaid, a minnau yn unig—*alone.* Daw car a chyfaill i gydymdeimlo. Y mae rhywun byth a beunydd wrth law i gysuro pe medrir, ond yr wyf yn *unig.* Y mae'r enaid yn rhodio tywyllwch glan yr afon, ac yn byw yn y cysgodion. Siglir ffydd. Collir golwg ar gariad Duw, ac hyd yn oed ar Dduw ei hun. Yfir gwaelodion cwpan chwerwder. Ond ymhen ennyd, teneua'r niwl, a dechreuaf innau feio fy hun am amau, a daw'r geiriau'n fyw i'm cof: "He that despairs measures Providence by his own little contracted model."

Miloedd o weithiau er yn blentyn y gweddiais, "Gwneler dy ewyllys," ond heb wybod eu hystyr na'r aberth a ofynid. Gwag a diystyr imi oedd y geiriau fel ag i filoedd eraill, ond trwy'r nôs cefais olwg newydd ar Dduw, ac ystyr newydd i'r geiriau. Er na thorrir deddfau Duw mewn ateb i'm gweddi i (os gweddi ydyw ceisio i Dduw ymyrryd a'i ddeddfau) eto medr Efe fod yn Dad cariadlawn a rydd nerth yn ol y dydd, ac er dued yw'r nôs, er creulonedig ddyrnod, ac er chwerwed yr hiraeth, ni chwynaf mwy na buasai Duw—y Digyfnewid, yn cyfnewid ei ewyllys i'm boddio i, ond gofynnaf yn hytrach am nerth i ymostwng yn dawel, ac i ddywedyd ac ystyr newydd, "Dy ewyllys di, o Dad, a wneler," ond y mae'n nôs.

O.

TEULU MERRIVALE, TEMPLETON.

Mwy cynefin fyddai dywedyd Teulu a Hen gartref y diweddar

FARNWR B. T. WILLIAMS.

'Rhyn eilw ein sylw at y teulu goddidog hwn yn bresennol yw marwolaeth Miss Ada Williams, chwaer (a'r olaf chwaer gyflawn) y boneddwr rhadlon uchod. Claddwyd ei gweddillion cysegredig yn hen gladdfa'r teulu, wrth gapel Annibynol Templeton, lle y bu ei thad, y Parch. T. R. Williams yn weinidog am yn agos i ugain mlynedd. Cyrhaeddasai Miss Williams yr oedran teg o 82 mlwydd, ac yr oedd ym meddiant llwyr o'i chynheddfau hyd y diwedd.

Yr oedd y chwaer hon yn un o ragorolion y ddaear. Ni fu un erioed a berchid yn fwy gan ardal gyfan. Yr oedd crefydd a moes mor naturiol iddi ag yw perarogl i flodeuyn.

Hi, gyda'i mam, gychwynodd y Band of Hope cyntaf yn Sir Benfro, a hynny dros 60 mlynedd yn ol, a chadwodd ei diddordeb yn y sefydliad clodwiw hyd o fewn tridiau i'w marwolaeth. Adwaenai bob plentyn yn yr ysgol sydd yn agos i Merrivale. Er nad allai fyned allan o'r tŷ er ys blynyddoedd, dygid y plant ati er mwyn iddi eu hadwaen a'u cynghori. A gwnelai hynny gyda gras a lledneisrwydd y gwir Gristion.

Ni ellir byth fynegu syniad plant yn well am dani nag yng ngeiriau bachgen bach tlawd sy'n lletya yn yr ardal dan nawdd Gwarcheidwaid Narberth. Wrth siarad a boneddiges urddasol ac adnabyddus am yr ymadawedig, dywedai: "She was the best Christian lady in the whole world. She knew the Bible from beginning to end, and died reading it, and she was very kind to children." Go lew, i fachgen bach o'r *Workhouse*, onide?

Dyma farn yr eglwys am dani. Yng nghyfarfod blynyddol yr eglwys yn 1906, penderfynwyd yn unfrydol i wneyd Miss Williams yn *Honorary Deaconess*. Dyma'r anrhydedd uchaf allasent hwy osod arni, a llwyr deilyngai hithau'r safle a'r swydd.

Goddefer i mi ddweyd gair yn rhagor am y teulu hynod hwn. Dysgais barchu y Williamses drwy fy adnabyddiaeth o Mr. T. J. Williams, ail fab y Barnwr Williams, yng Ngholeg Aberystwyth. Yr oedd yn un o'r bechgyn mwyaf hoffus a adwaenais erioed, yn un diddan a da, yn ddysgedig a chelfyddgar—chwareuai'r crwth yn ardderchog. Bu farw yn gyfreithiwr cymharol ieuanc yn Llanelli, a hynny yn rhy gynnar wrth fodd y neb a'i hadwaenai.

Un o blwyf Llanina, Sir Aberteifi, oedd y Parch. T. R. Williams—y tad, ac un o hen ysgolheigion

DR. PHILLIPS, NEUADDLWYD.

Sefydlodd yn Pembroke Dock, yn 1826, a symudodd i Templeton yn 1830. Ym mhen ychydig amser priododdMiss Mira Williams, merch Benjamin Thomas, Ysw., Merrivale, boneddwr o safle ac urddas yn yr ardal. Profodd Mrs. Williams yn wraig ddeallus a chref, a hynod am ei chrefydd a'i daioni.

Ar gyngor a thraul y tad-yngnghyfraith aeth Mr. Williams i berffeithio ei addysg i Goleg y Brifysgol yn Llundain, ac ar ei ddychweliad sefydlodd Ysgol Ramadegol ardderchog. Bu gweinidogaethu a chadw ysgol yn ormod pwn iddo, a bu farw yng nghanol ei ddefnyddioldeb yn 1850. Dywedir ei fod yn bregethwr campus; ond ni chafodd y wlad gyfle arno, o herwydd iddo gael ei gyfyngu i'w gartref gan yr ysgol.

Anfonwyd y meibion o un i un i Goleg Caerfyrddin. Ar ol gweinidogaethu am ychydig yn Lloegr aeth Benjamin yn fargyfreithiwr; bu yn A.S. dros Fwrdeisdrefi Caerfyrddin,

ac yn ddiweddaf oll yn Farnwr.

Bu Mr. Nestor Williams yng Nghaerfyrddin o 1849—52. Cofir, yn bennaf, am dano yng Nghymru, fel y Parch. Nestor Rayson Williams, Merthyr, lle y bu yn weinidog Undodaidd o 1860 hyd 1894, a hynny gyda pharch nodedig. Cawsom y fraint o fod yn ei angladd yn Templeton dair blynedd yn ol. Treuliasai flynyddoedd olaf ei oes yn yr hen gartref.

Un arall o'r meibion oedd y Parch. Heber Williams, a fu yn weinidog Undodaidd yn Lloegr am dymor, ond treuliodd y blynyddoedd olaf yn gweini yn hen gylch ei dad gyda'r Annibynwyr. Bu farw yn 1876.

Cwestiwn o ddiddordeb mawr, yn enwedig i Annibynwr fel yr ysgrifennydd, yw

TROEDIGAETH Y BONEDDWYR DIWYLLIEDIG HYN AT UNDODIAETH.

Dywedir i hyn ddigwydd tra yr oeddynt yn y Coleg.

Gwn mai'r hen syniad yw mai dylanwad Dr. Lloyd oedd yr achos, oblegid lletyent yn nhŷ y Prifathro hynaws a dysgedig. A hawdd gennym gredu i unrhyw duedd allasai fod ynddynt yn flaenorol at Undodiaeth gael anogaeth tra yng nghymdeithas gwr fel Dr. Lloyd. Hawdd yw coleddu credo cymeriad mor hynod o debyg i'r Meistr mawr mewn tynerwch a charedigrwydd. Er hynny, ein barn bersonol ni yw fod yr achos yn nes yn ol. Rhaid gofyn yn gyntaf paham yr anfonwyd y bechgyn i dŷ y Prif Athro? A chofier i Benjamin fyned yno bedair blynedd cyn marwolaeth ei dad.

Mae dwy ffaith arall yn awgrymiadol i mi. Buasai y tadcu—Mr. Benjamin Thomas, yng Ngholeg Caerfyrddin yn gynnar yn y ganrif ddiweddaf, fel lleygwr. Dyna gyfnod y dadleuon diwinyddol, ac y mae'n bosibl (wn i ddim) iddo goleddu syniadau Arminaidd tra yno. Peth arall, daethum i wybod yn ddiweddar, bu yn Templeton ar adeg

GAPEL BYCHAN GYDA'R UNDODIAID.

Beth fu cysylltiad y teulu a hwn ni wn. Fodd bynnag, gwyddom hyn. Ni fu'r un o honynt yn eithafol yn ei gredo. Pan ar ymweliad a'r hen gartref cymerent eu lle, yn naturiol, yn addoldy'r teulu. Fel y dywedwyd o'r blaen terfynodd Mr. Heber Williams ei oes yng ngweinidogaeth ei dad. Yn ystod y deunaw mlynedd olaf o'i oes yn Merrivale mynychai Mr. Nestor Williams, yn rheolaidd, yr addoliad gyda'r Annibynwyr. Digon yw dywedyd eu bod yn foneddwyr Cristionogol. Dywed y Parch. D. Phillips, gweinidog presennol Templeton, na chafodd deulu erioed fel teulu Merrivale, na gwrandawr mwy siriol a chefnogol na Mr. Nestor Williams.

Erys yn yr hen gartref ddwy foneddiges arall na chymerem lawer am eu gadael allan; un yw hanes chwaer i'r plant uchod—Miss Davies, a'r llall Miss Mira Williams, unig ferch y diweddar Farnwr Williams. Dwg y ddwy hyn eto nodweddion goreu'r teulu, a gweiniasant ar Miss Williams gydag ymlyniad a theyrngarwch dihafal. Mae cydymdeimlad yr ardal a phawb a'u hedwyn gyda hwynt yn eu galar a'u colled. Nodded dyner y nef fyddo drostynt. Dylem ddywedyd hefyd cyn terfynu mai mab i'r Barnwr Williams yw Oliver Williams, Ysw., Cofiestrydd Llys y Mânddyledion, yn Cheltenham.

J. J. JONES,

Bryn Sion, ger Narberth.

EMYNAU.

Y mae'r arfer o ganu emynau yn hen. Dywedir yn y Testament Newydd i'r Iesu a'i ddisgyblion ganu emyn ar ol y swper olaf cyn myned o honynt allan i fynydd yr Olewydd. Credaf fod yr arferiad yn hen y pryd hwnnw, er nas gwyddom fawr am ansawdd emynau yr eglwys foreuol.

Yn yr Eglwys Babyddol, am ganrifoedd lawer, cyfyngid canu cysegredig i'r offeiriaid a'r côr, a gellir dweyd mai Luther, tad y Diwygiad Protestanaidd, yw tad canu cynulleidfaol hefyd. Deallodd ef fod canu cynulleidfaol yn allu cryf i ennill calonnau ac eneidiau'r bobl gyffredin. Nid oedd mwyafrif mawr emynau'r Diwygiad ond Salmau wedi eu cyfaddasu i fydrau ac odlau rheolaidd. Yn amser y Frenhines Mari ffodd llawer o Brotestaniaid Prydain am loches i'r Yswisdir, ac ar eu dychweliad yn amser Elizabeth dygasant gyda hwy yr arfer o ganu emynau cynulleidfaol

Bu gwrthwynebiad chwerw i ganu y Salmau mydryddol mewn llawer capel yn Lloegr, yn enwedig ym mhlith y Bedyddwyr Cyffredinol. Prif reswm y gwrthwynebwyr oedd fod y Salmau yn rhan o'r Ysgrythyr ysbrydoledig, ac nas gellid eu trefnu mewn mydr ac odl heb gyfnewid a llurgunio gwaith y Goruchaf. Bu ymrwygiad o'r herwydd mewn rhai capeli, a cheisiwyd osgoi'r anhawster mewn mannau trwy ganu yr emyn ar derfyn y gwasanaeth fel y gallai'r gwrthwynebwyr cydwybodol fynd adref heb glywed y ffleidd-dra. Nis gwn i'r anhawster hwn fodoli yng Nghymru.

Cyfeiriwyd y Beibl i'r Gymraeg yn 1588, a'r cyntaf i geisio cyfaddasu'r Salmau mewn mydr ac odl i'w canu yn yr eglwysi oedd y Llyngesydd William Middleton (Gwilym Canoldref). Treuliai ef ei fywyd ar y môr yn ymladd a'r Yspaenwyr, ac yn ysbeilio eu llongau, gan gysegru ei oriau hamddenol i gyfieithu'r Salmau. Gorffennodd y gwaith yn Ionawr 1595. Ymddengys mai yn y mesurau caethion y cyflawnodd efe yr orchest, ac nis gallasai'r cantorion fabwysiadu ei fydrau anystwyth.

Wedi hyn, ceisiodd Edward Kyffin, morwr arall, wneud y gorchwyl yn well, ond ni chafwyd o'i law fwy na thair ar ddeg o Salmau, ac nid oes fawr gamp ar y rheiny.

Mwy llwyddiannus fu ymdrech yr Arch-ddiacon Prys (ganwyd yn 1541). Ceir eu Salmau ef wedi eu hargraffu yn yr hen Feibl au Cymraeg, ac y mae llawer ohonynt yn felys a chanadwy. Cawn sylwi ar rai o honynt eto.

Wedi canrif o amser, cyfieithodd Dafydd Jones, o Gaio, lawer o emynau Isaac Watts. yn wir dda ; a dilynwyd ef gan Williams, Pantycelyn, Ann Griffiths, Ieuan Glan Geirionydd, a llu o emynwyr eraill.

Y casgliad cyntaf y gwn i am dano at wasanaeth cynulleidfaoedd Ariaidd ac Undodaidd oedd eiddo y Parch. Josiah Rees, Gelligron, yn y flwydd-yn 1796. Cyhoeddodd Iolo Morgannwg ei "Salmau'r Eglwys yn yr Anialwch," yr ail gyfrol, tua 1812, er fod llawer ohonynt yn wybyddus i gylch ei enwad ei hun cyn hynny, a pheth o'i waith wedi ei ladrata gan eraill, yn ol tystiolaeth Iolo ei hun. Cyhoeddodd y Parch. John Jones, Aberdar, gasgliad o "Salmau a Hymnau" yn 1857, a'r Parch. R. J. Jones ei "Emynau o Fawl a Gweddi." yn 1878, a'r ail-argraffiad yn 1883. Ymddangosodd y "Perlau Mohiant" yn 1896, yr emynau wedi eu dethol gan y Parch. J. Hathren Davies, a'r tonau gan y Mri. D. Eiddil Jones a William Harries. Dichon y gwna R. J. J. ychwanegu at yr uchod, a chywiro rhai o'r dyddiadau.

Gyda hyn o ragymadrodd hanesyddol, mi geisiaf sylwi ar rai o nod-

weddion emyn da. Amrywia emynau o ran natur ac amcan. Un o ddibenion pennaf emyn, yn sicr, yw moli Duw, a'r dull effeithiolaf i wneyd hyn yw ei annerch yn uniongyrchol yn yr ail berson. Gellir son am ogoniant, a mawredd, a chariad Duw, a'i glodfori yn y trydydd person. Ond pair hyn ryw syniad o bellter yn lle ymdeimlad o agosrwydd ein Tad, a chymundeb uniongyrchol ag Ef. Er engraifft, gymaint yn agosach y teimlwn Dduw wrth ganu fel hyn :

Ti'r unig Dduw'r Goruchel mawr,
A deimlwn yn ein plith yn awr ;
A'th gariad pur yn awel gref,
Yn disgyn arnom fel o'r nef."
P.M. 139.

nac wrth ganu :

Da iawn yw Duw, boed iddo'r clod,
Mae ynddo'n bod a'n bywyd," &c.
P.M. 85.

Yn un o'i emynau poblogaidd (rhif 231 "Perlau Moliant") cymysga Ceiriog ei Ramadeg mewn modd anffodus. Dechreua wrth annerch Duw yn y cyflwr cyfarchiadol (*vocative case*) fel hyn : "O Dduw," yna try yn ddisymwth i son am dano yn y trydydd person, "yr hwn a'i darian ddirgryna'r entrych ban," &c. Yn y bumed llinell dychwel eto i annerch Duw yn yr ail berson, "I Ti, fy unig noddfa," &c. Onid gwell fyddai Gramadeg y pennill, a mwy effeithiol ar enaid y canwr pe cedwid yr un dull o ymadrodd, fel hyn :

O Dduw ! Tydi a'th darian
Ddirgryni'r entrych ban,
Goruwch y gronyn daear
Dy lygad wel bob man," &c.

Amcan arall emyn yw erfyn ar Dduw am fendithion ysbrydol gweddi mewn emyn. Ni fydd neb yn gweddio Duw yn y trydydd person. Felly, y dull cyfarchiadol, uniongyrchol yw'r un cymhwys yma eto. Ceir engreifftiau ardderchog yn emyn tyner Gwilym Marles :

Duw ein tadau, Duw ein mamau !
Bydd i ninnau'u plant yn blaid.
P.M. 217.

ac eiddo Watcyn Wyn :

Arglwydd, gwrando ar ein gweddi
Gweddi am dy gymorth yw.
P.M. 212.

a llawer eraill.

Y rheol gyntaf, ynte, yw "mai'r ffurf oreu ar emyn yw'r un sydd yn cyfarch Duw yn uniongyrchol mewn moliant neu ymbil."

Nid yw hyn yn golygu nad oes lle cyfreithlon mewn gwasanaeth crefyddol i emynau a draethant ragoriaethau'r Duwdod mewn dull llai personol, megis :

Yr Arglwydd sy'n teyrnasu,
Llawened nef a llawr.
P.M. 249.

Yr hyn a ddywedwn yw mai'r cyfarchiad uniongyrchol yw'r effeithiolaf, am y dug ni yn agosach at Dduw.

Eto, disgwylir ar holl aelodau'r gynulleidfa i ymuno yn y canu, felly dylid geirio emyn yn y person cyntaf lluosog (nid yr unigol). Sylwn eto ar emyn Ceiriog (231), yma, person unigol, nid torf o addolwyr sydd yn llefaru :

I Ti, fy unig noddfa
A'm cadarn Graig yr *oes*,
A chanu am drugaredd
Yn Dy gyfiawnder *wnaf*.

Hawdd ddigon fyddai addasu'r emyn hwn at wasanaeth cynulleidfa fel hyn :

I Ti ein hunig Noddfa
A'n cadarn Graig yr awn,
A chanu am drugaredd
Yn Dy gyfiawnder wnawn.

Ceir y diffyg hwn mewn llawer iawn o emynau, megis eiddo Newman :

Di, dyner wawl, trwy'r dyrys anial le,
O arwain fi.
P.M. 459.

Pe canai'r pregethwr yn unig gwnai hyn y tro. Ond dylai cynulleidfa fynegi ei hun yn y rhif lluosog. Yr ail reol, gan hynny yw, "y dylid geirio emynau cynulleidfaol yn y rhif lluosog yn hytrach na'r unigol."

Weithiau ceir emyn ar ddull gair o gyngor :

Rho'wch glust, chwi ie'nctyd glân,
Ystyriwch eiriau dwys.
P.M. 180.

Yn sicr, pregeth ac nid emyn sydd yma. Onid yw'r "ie'nctyd glân" ymhlith y cantorion? Os felly, wrth ganu, hwy sydd yn rhoi cyngor, a phwy gynghorant? Ai'r ie'nctyd na fedrant ganu? Gwell gadael y cynghori i'r pregethwr. Mwy addas fyddai cyd-gymhelliad fel hyn :

Cysegrwyn flaenffrwyth ddyddiau'n hoes.

Ceir yr un diffyg yn emyn Iolo :

O ! dyro glust, clyw lais o'th ol,
Yn d'alw o ffyrdd dy chwantau ffol.
P.M. 153.

Mwy cymwys i gynulleidfa yw'r gydanogaeth geir yn emyn 155 :

Gwrandawn ar air y Dwyfol Dad,
A gaed o'r nef yn addysg rad.

Dyma y drydedd reol, ynte, "mai nid gweddus mewn emyn cynulleidfaol yw cynghori eraill, er fod cydanogaeth yn briodol." Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng dweyd, "yr wyt ti'n bechadur," a chyffesu "yr ydym ni yn bechaduriaid." Bydd-ai'n dda i ambell bregethwr gofio hyn.

Ceir llawer emyn o hunan-fyfyrdod — yr enaid yn archwilio ei hun, ac yn myfyr-draethu ei brofiad. Mae rhai o honynt bron yn rhy bersonol a chysegredig i'w cyffredino mewn addoliad cyhoeddus. Emynau yr ystafell ddirgel ac oriau unig bywyd ydynt. Colled ddirfawr, er hynny, fyddai eu gollwng o unrhyw gasgliad. Efallai y dylent gael adran ar wahan i'r rhai mwy cyffredinol. Gweler, er engraifft, y rhai canlynol yn y "Perlau" : rhif 31, 39, 107, 373, 428, 459. Felly, y bedwaredd reol yw, "fod llawer o emynau ardderchog yn mynegi profiadau ysbrydol neilltuol bywyd, ond braidd y gellid disgwyl iddynt fynegi teimladau cynulleidfa gyfan ar unrhyw adeg."

Nid wyf yn dymuno cyfyngu maes testunau emynau cynulleidfaol yn ormodol. Wedi pob ystyriaeth erys y maes yn eang. Gellir canu am ddatguddiad Duw yn mhrydferthwch natur, am fawredd a daioni Duw yn eu holl agweddau, am Grist a'i genadwri, am rinweddau y bywyd Cristionogol, am obeithion amserol a thragwyddol, ac am brofiadau a dyheadau y Cristion, ond dylai emyn i wasanaeth cyhoeddus edrych ar bethau o safbwynt cynulleidfa gyffredin yn hytrach nag o safbwynt unigol unrhyw emynydd.

Pw barhau.

UNDODWR O GEREDIGION.

LEWIS NOAH WILLIAMS, Y.H.

Pan oeddwn ychydig amser yn ol yn ysgrifennu math o fywgraffiad o William Williams (Carw Coch)* nid oeddwn yn breuddwydio y byddai galw byth arnaf i fywgraffu Ap Carw. Yr oedd efe gymaint yn ifancach na mi, ac fel canlyniad gallesid disgwyl iddo fyw ar fy ol ; ond wele efe wedi mynd, a minnau yma hyd yn hyn. Nid yw bwriad dyn a threfn Duw ddim bob amser yn golygu yr un peth. Gwn mai ansicr yw bywyd o'r cychwyn i'r terfyn, eto yn rhywfodd, ni allaf lai nag edrych ar yr amgylchiad fel rhybudd i minnau.

Yr oeddym yn gyfeillion agos ac yn anwyl drwy'r blynyddau, a chredwn fod adnabod Mr. Williams yn gyfystyr a'i garu. Galwai yn Broniestin yn bur fynych. Yn wir, yn ddiweddar nid oedd braidd wythnos yn pasio na fyddai yn galw unwaith neu ddwy. Yr oedd yma ar dê prydnawn y dydd Gwener y cymwyd ef yn glaf, a'i lau canlynol ehedodd ei ysbryd mwyn ymaith at y Tad goreu.

Ganwyd ef yn y Stag, Mawrth 20, 1845, ac felly nid oedd ond ychydig yn fyrr o gyraedd ei 74 oed. Gedy ar ei ol un ferch a phedwar mab, ac nid wyf yn gwybod am ddim gwell y gallaf ddymuno iddynt nag iddynt fod yn ffyddlon i'w coffaon goreu am eu tad. Collodd Mr. Williams ei anwyl briod, merch Mr. Richard David, Abergwawr, Awst 1, 1903 ; ac o'r pryd hwnw hyd y diwedd gwnaeth Miss Williams ran oreu merch i gadw cartref cysurus i'w thad a'i brodyr. Cafodd hi a'i brawd ieuengaf y fraint o weini arno yn ei fynudau olaf.

Yn ystod blynyddau erchyll y rhyfel diweddar yr oedd Mr. Williams yn naturiol yn bryderus iawn yn nghylch ei feibion. Yr oedd tri o honynt wedi ymuno a'r Fyddin ; ac eto ni allai lai na theimlo, yn rhyw ystyr, yn falch eu bod wedi mynd allan, ar alwad eu gwlad, ac wedi gwneud eu rhan yn anrhydeddus i'w hamddiffyn. Gwobrwywyd un o honynt, Major R. D. Williams, a'r D.S.O. Llwyddodd efe i ddyfod i'r angladd, ond methodd ei frawd, Emerson.

Dygwyd ein cyfaill i fyny ar aelwyd Undodaidd, a pharhaodd drwy ei oes yn Undodwr o argyhoeddiad. Byddai yn anodd enwi neb a fu'n ffyddlonach i'w enwad. Nad lle bynnag y byddai, a thramwyodd lawer o bryd i bryd, nid anghofiai efe mai Undodwr oedd. Yn ei ddyddiau bore, bu'n ffyddlon yn ol ei allu a'i gyfleusderau i'r achos yn yr Hen Dy Cwdd. Gwyddai werth y gorchymyn nac esgeuluswch eich cydgynulliad, a theimlid gwerth ei bresenoldeb yn yr Ysgol Sul, yr Ysgol Gân, ac yng nghyfarfodydd yr wythnos. Efe, yn bennaf, fu yn offeryn i ail gychwyn yr achos yn Highland Place, tua 1886, a thrwy'r blynyddau bu ar ei eithaf i gadw tipyn o fynd yno. Anfynych y bydd-

* Gweler "Cymru" Ionawr a Chwefror, 1919.

ai ei sedd ef yn wag. Gweithiai yn yr Ysgol Sul, a thalai sylw arbennig i'r bobl ifeinc, gan gofio mai hwyrhwy yn y man fyddai colofnau'r achos. Pan fyddai un o honynt yn symud i fyw i fan arall, os digwyddai fod yno gapel Undodaidd, ysgrifennai at y gweinidog i edrych ar ei ol, a cheisio ei berswadio i fynychu'r addoliad. A phan elai efe ei hunan oddicartref, yr oedd ei alwedigaeth yn mynd ag ef weithiau, yr oedd yn wahanol i lawer, gofalai yn wastad i bresenoli ei hunan yn y capel Undodaidd, os byddai yno un i gael. Bu yn ddiameu yn foddion drwy hynny i galonogi ambell i achos gwan.

Cafodd y fraint o lanw pob swydd o anrhydedd yn ei enwad, ac nid oes amheuaeth na wnaeth ei ddyledswydd ynddynt yn dda. Bu'n llywydd y Gymdeithas Gymreig yn 1898, a chyhoeddwyd ei anerchiad yn YR YMOFYNYDD. Bu ganddo fwy o law na neb arall, feallai, yng nghychwyniad y Gymdeithas Seisnig, a gwasanaethodd hi, yn gyntaf fel ysgrifennydd, yna fel trysorydd, ac yna am ddwy flynedd, 1906—07, fel llywydd. Mynychai ei holl gyfarfodydd. Yr oedd yn bresenol yn y cyfarfod yn Mountain Ash tua dechreu Chwefror diweddaf.

Yn 1908, cyhoeddodd gyfrol hardd o weddillion llenyddol ei dad—barddoniaeth a rhyddiaeth, yn cynwys traethodau hanesyddol gwerthfawr yn dal cysylltiad a'r hen gapel Undodaidd yn Mlaengwrach.

Yr oedd wedi bod am flynyddau yn un o ddynion mwyaf cyhoeddus Aberdar a'r cylchoedd, a pharoddŧ ei farwolaeth disymwth deimlad o dristwch cyffredin. Teimlid ein bod wedi colli dyn a fu drwy ei oes yn wr mwyn, hynaws, caredig, a hynod haelionus o ran amser ac arian i helpu pob achos da.

Yn yr angladd dydd Mawrth, y 18fed, yr oedd y cynhebrwng yn lluosog. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan Mr. W. J. Phillips, ac yn y gladdfa gyhoeddus gan y Parchn. E. R. Dennis ac Eric Davies. Analluogwyd ei weinidog, y Parch. E. T. Evans, i fod yn bresennol gan afiechyd.

R. J. J.

ŧ Gweler manylion pellach yn YM-OFYNYDD Gorffennaf.

MARWGOFION.

CHWEFROR 8, Mary Evans, Cwmmarch, Llandyssul, yn 91 oed. Cafodd, fel y gwelir, oes faith, ac ar hyd ei hoes bendithiwyd hi a iechyd da. Daliodd yn rhyfeddol o hoew hyd y diwedd, ac yr oedd yr oll o'i synwyrau, ac eithrio y clyw, cystal ag eiddo llawer tri-ugain oed. Yr oedd yn un o saith o blant, plant Pantiorlech, ond erbyn heddyw nid oes ond un yn aros, ei brawd David Evans, Gwarcwm. Yr oedd yn fawr ei pharch ymhlith ei chydnabod ar gyfrif y llu rhinweddau a berthynai iddi, o ba rai, yr amlycaf, o bosibl, oedd ei didwylledd. Yr oedd mor ddidwyll a diniwed a'r baban. Clywsom un yn dweyd ei bod yn esiampl i ni i gyd yn y cyfeiriad hwn. Yr oedd yn aelod ffyddlon yn eglwys Llwynrhydowen, a chofiai a siaradai'n fynych am y "dyddiau blin" fu yn hanes y gynulleidfa. Yr oedd y Llwyn a phobpeth perthynol i lwydd-

iant yr achos yn y lle yn agos iawn at ei chalon. Rhyfedd mor ychydig o arwyr a ffyddloniaid y "dyddiau blin" sy'n aros. Deallwn ei bod wedi gadael £100 yn ei hewyllys i'r gynulleidfa. Dyna beth oedd bod yn ffyddlon hyd y diwedd. Gadawodd, heblaw ei brawd, nifer luosog o neiaint, a chyfeillion mewn galar o'i cholli. Claddwyd y Mercher canlynol yn Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T A. Thomas. "Dychwel, O, fy enaid, i'th orphwysfa: canys yr Arglwydd fu dda wrthyt."

CHWEFROR 8, yn 60 mlwydd oed, William Bowen, Alaska, Trebanos. Claddwyd y 12fed cyfisol, wrth Eglwys St. Pedr, Pontardawe. Codwyd yr angladd gan y Parch. D. G. Rees, Trebanos, a gweinyddwyd yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. Joel Davies a'r Periglor, Pontardawe. Nid ofnwn ddweyd i'r ymadawedig hannu o un o gyffau cadarnaf y cylchoedd; er hynny, gwanychwyd ef gymaint, nes iddo, mewn amser tra byr, wedi cael trin iaeth feddygol yn Ysbytty Abertawe, a phob peth a allai y llaw ddynol roddi iddo, suddo yn ìs, fel nad oedd bellach obaith am ei adferiad. Bu yn Gynghorydd da, a cha y lle golled ar ei ol. Fel llawer o honom, un o blant y ffiam Geltaidd oedd efe, ond nis niweidiai fin y ffiam neb, a byddai ei gwres yn fynych yn lles i berson a chymdeithas. Mae iddo weddw a dau o blant ar ol. Nerth a gaffont i barhau i ymladd a'r byd hwn. 'Dyw y marw yn gofyn am sylw neb, ond y mae y byw, a'r byw sydd wedi dioddef erioed, a'r marw uwchlaw pob ing a phoen.

CHWEFROR 17, yn 79 mlwydd oed, Mary Williams, Vardre, Clydach, gweddw y diweddar Lewis Williams, (Lewis Mandri fel ei gelwid ef gan luaws). Cafodd hi oes faith. Cofiaf yn dda, i mi ei phas.o a'i chyfarch ar yr heol, un tro, a hithau mor wargrwm, i mi ymson rhywbeth fel hyn: "Dyna wraig wedi aberthu ei thalent i wasanaethu'r wlad, a Llywodraeth Prydain Gristionogol yn rhoi feined a saith a chwech yn dâl henoed iddi." Ei hawddgarwch oedd ei choron. Gwelodd lu mawr o droion y byd hwn, fel pawb o'i chyfoed, a gallai lefaru cyfrolau ped ysgrifennid hwynt i fyd ac eglwys. Cymerodd yr angladd le y dydd lau canlynol; claddwyd wrth Gellionen. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Vincent Thomas (M.) Vardre, Clydach. O'i hol, mewn galar, y mae ei llysferch, gyda pha un y trigiannai, a merch yr hon sydd yn byw yn Nhrebanos. Arhosed nodded dihysbydd Duw ar yr aelwyd wag.

MAWRTH 3. Bu farw Mr. David Davies, Gelli Villas, Trecynon, Aberdar, yn 48 oed, ar ol cystudd byr a chaled o *Influenza* a *Pneumonia*. Yr oedd yn un o blant ac yn un o aelodau ffyddlon yr Hen Dy Cwrdd. Ar Sul, Chwefror 22, yr oedd yn y Gwasanaeth a'r Ysgol Gân. Y Llun canlynol teimlai yn anhwylus, ac ymhen yr wythnos bu farw. Daeth y cyfan mor sydyn fel nad oedd neb bron wedi tybio fod y diwedd mor agos. Braidd y gallwn ddygymod a'r ffaith ei fod wedi ymadael a ni, canys ni freuddwydiodd neb fod y perygl mor fawr, am ei fod yn ddyn mor gadarn ac wedi bod yn iach ar hyd y blynyddoedd, a bob amser yn llawen, yn hapus ac yn llawn bywyd. Bu am flynyddoedd yn *fireman* dan Gwmni'r Bwllfa, a thystiolaeth y meistri yw, ei fod yn ddyn y gallasant ymddiried yn llwyr ynddo, a bod eu colled yn fawr, ac anhawdd fydd cael un i lanw ei le.

Er ei fod yn ddyn mewn safle uchel a chyfrifol eto gallasai chwareu gyda'r plant a'r b bl ieuanc fel un o honynt hwy, a bydd gwagter neillduol yn yr Hen Dy Cwrdd ar ei ol ac yn enwedig ar Bank Holiday, (Awst) oherwydd efe oedd y prif ffigyr gyda'r plant yn eu chwareu ar yr hwyl hono. Teimlai ddiddordeb neillduol hefyd yng nghaniadaeth y cysegr, ac yr oedd yn un o ffyddloniaid yr ysgol gân. Byddai y gân i'w chlywed hefyd ar yr aelwyd, y plant ac yntau yn canu, hwyl neillduol gyda'r gwaith. Ni fu tad caredicach

i'w blant. Yr oedd ei fywyd yn canolbwyntio ynddynt, a hoff iawn o hono oedd plant yr Hen Dy Cwrdd a'r ardal, oherwydd gallasai osod ei hun fel un o honynt hwy. Yn ychwanegol at yr ergyd yr oedd ei wraig a'i ferch henaf yn glaf yr un pryd ag yntau, a dim ond wythnos o gwmni ei dad gafodd ei fab ar ol dod yn rhydd o'r fyddin. Daeth y cyfan fel storom arw ar draws y teulu hwn, a gedy weddw a chwech o blant i alaru ar ei ol. Bu yr angladd dydd Iau, Mawrth 6fed, pan ddaeth torf ynghyd yn brawf o'r edmygedd oedd ganddynt tuag ato, a chafwyd *Wreaths* oddiwrth eglwys Carmel (M.), Cymdeithas Ymdrechol yr Hen Dy Cwrdd, Undeb y *Firemen* a'r *Allotment Holders* Cladd wyd yn y fynwent gyhoeddus, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. E. R. Dennis a H. Stephens (M.); yr oedd hefyd yn bresenol yn yr angladd y Parch. D. J. Evans, Caer. Nodded Duw i'r teulu yn eu galar a'u colled.

" Henffych i'r dydd cawn eto gwrdd
Yn Salem fry oddeutu'r bwrdd."

CHWEFROR 23, ar fin y 92 mlwydd oed o'i hoedran, bu farw Elizabeth Jenkins, anwyl briod y diweddar Joseph Jenkins (Amnon II), Trecefel, ger Tregaron. Yr oedd yn gyfyngedig i'w gwely er's tua chwe' mlynedd, ond ni pharhaodd y cystudd a derfynodd yn ei marwolaeth ond amser byr. Tuag wythnos cyn ei marw cymerwyd hi yn glaf o'r *Bronchitis*. Hannai o deulu adnabyddus iawn yn nosbarth Undodaidd Ceredigion. Yr oedd yn ferch i'r diweddar Jenkin Evans, Tynant, Ciliau Aeron, ac felly yn chwaer i Thomas Evans, Tynant, yn awr o'r Parc. Trwy ei phriodas daeth i gysylltiad â theulu adnabyddus arall yn Nyffryn Aeron—teulu Blaenplwyf. Pan yn ieuanc iawn ymgysylltodd a'r achos Undodaidd yng Nghiliau; ac er iddi ymsefydlu yn Nhrecefel, ar bwys Tregaron, ac felly yn rhy bell i fynychu'r addoliad yno, eto parhaodd ei chysylltiad a'r achos hyd y diwedd. Allan o naw o blant, gadawodd ar ei hol ddau fab a phedair merch—yr oll mewn sefyllfaoedd da. Y mae un mab, Dr. Jenkins, yn feddyg dan Gynghor Dinesig y Rhondda; ac y mae un ferch a mab yn byw yn Nhrecefel. Yng nghymydogaeth Tregaron, fel y tystiwyd wrthyf ddydd ei hangladd, enillodd iddi ei hun barch diffuant pawb a ddelent i gyffyrddiad â hi ar gyfrif ei chymeriad cywir a'i hysbryd caredig, cymwynasgar. Cymerodd ei chladdedigaeth (anghyhoedd) le y dydd Iau canlynol, yn mynwent Capelygroes. Gweinyddwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan y Parch. D. Jones (M.C.), a'r Parch. D. Jones, B.A., Ficer Tregaron; yn y capel gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, a'r Parch. J. Davies, Tancoed.

MAWRTH 3, yn 67 Cwmaman Rd., Aberdar, Margaret, gweddw William James, gynt o Gwmneol, yn 78 oed. Gedy amryw blant a lluaws o gyfeillion i alaru eu colled. Byr fu ei chystudd, ond cafodd bob gofal a thynerwch a allai ei dwy ferch oedd gartref wneud i'w hesmwythau. Y Jamesiaid a'r Morgans o Abernant y Groes oedd y prif rai fu'n cychwyn yr achos Undodaidd yn Cwmbach, ac o'r pryd hwnnw hyd heddyw hwynthwy yw y prif golofnau i'w gynnal. Gobeithiwn y bydd y rhai sydd ar ol yn parhau yn eu ffyddlondeb.

MAWRTH 5, yn 60 mlwydd oed, William Hopkin, Trebanos. Erys un peth yn ffaith, hyd y gwyddom, nad y marw sy'n holi, ond y byw. A hawdd yw i'r byw wneud hynny. Mewn arholiad, y gwybodus sy'n holi, ond mewn marwolaeth, fe hola yr anwybodus, a ffurfia atebion i gyfateb ei farn gul. Dychmygaf i'r ymadawedig fod yn awyddus i fyrhau y daith adref, ac i'r demtasiwn esgyn yr orsedd, ac iddo yntau yn ei ddiniweidrwydd a'i aidd ganu rhyngddo ag ef ei hun,

Ar lan Iorddonen ddofn
'Rwy'n oedi'n nychlyd,

Mewn blys mynd trwy, ac ofn
Ei stormydd enbyd ;
O ! na b'ai modd i mi
Ysgoi ei hymchwydd hi,
A hedfan uwch ei lli'
I'r Ganaan hyfryd.

Prydferth yw einioes i'r craffus. Claddwyd ein hanwyl frawd yr 8fed cyfisol, wrth Gellionen, y Parch. D. G. Rees yn gwasanaethu, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Llew Boyer, Danygraig, a R. Rees, Alltwen. Mae iddo ferch, a brodyr a chwiorydd yn eu dagrau ar ol un oedd yn hoff ganddynt.

MAWRTH 12, Ellen James, Blaenwaen, Rhydowen, Llandyssul, yn 25 oed. Nid oedd yr ymadawedig o gyfansoddiad cryf, ac yn ystod y ddwy flynedd diweddaf dioddefodd lawer oddiwrth wendid corfforol. Rhyw wythnos cyn ei marw gafaelodd y *Flu* ynddi, a chafodd gystudd eithriadol o galed. Merch o dymer ddiddig ac addfwyn oedd Ellen, un siriol a serchog, a chwithig yw meddwl na chawn ei chyfarfod yma eto. Cydymdeimlir yn fawr a'r teulu, yr hwn sydd wedi gweld afiechyd mawr yn ddiweddar. yn ei alar. Y nef a daeno ei haden yn garedig drosto ac a'i hamddiffyno. Claddwyd y Llun canlynol yn Llwynrhydowen, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. A. Thomas.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

LLYWYDD - - MR. DAVID DAVIES, GELLIONEN.

.. CYNHELIR ..

CYFARFODYDD CHWARTEROL

YR UCHOD YN

——HEN DY CWRDD, ABERDAR,——

Dyddiau Mercher ac Iau, Ebrill 23 a 24, 1919.

Nos Fercher Pregethir gan y Parchn. D. Cellan Evans, a Lewis Williams. Dydd Iau, am 10 30, Pwyllgor y Gymdeithas ; am 11, Darllenir Dau Bapur—un gan y Parch. T. A. Thomas, a'r llall gan y Parch. D. Evans; am 2.30, Pregethir gan y Parch. John Davies ; am 6, Pregethir gan y Parchn. T. O. Williams, a E. O. Jenkins.

Mae gweinidog a chynulleidfa'r Hen Dy Cwrdd am estyn croesaw cynhes i bawb. Bydded i'r ymwelwyr hyny fyddent am lety ohebu'n brydlon a'r Parch. E. R. Dennis, 2 Alma St., Trecynon.

E. O. JENKINS, YSGRIFENYDD.

Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Half-a-Crown each net

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross, M.A.

Jesus and Christianity in the Twentieth Century. By Alfred Hall, M.A.

The Revelation of God in Nature and Man. By Edgar Thackray, M.A., Ph.D.

The Divine Element in Art and Literature. By W. L. Schroeder, M.A.

Eternal Life Here and Hereafter. By Sydney H. Mellone, M.A., D.Sc.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., K.C., Mrs. H. Foster Morley.

London Joint City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £34,428,948. Paid up Capital .. £7,172,697 10s.

Reserve Fund .. £7,172,697 10s.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1918.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz :—			
£2 10s. 0d. per Share on 2,869,079 Shares of £12 each ..	7,172,697	10	0
,, Reserve Fund	7,172,697	10	0
,, Dividend payable on 1st February, 1919	451,879	18	10
,, Balance of Profit and Loss Account as below	675,097	14	7
	15,472,372	13	5
.. Current, Deposit & other Accounts	334,898,435	12	6
,, Acceptances on account of Customers	13,145,849	2	11
	£363,516,657	8	10

	£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £8,000,000) and Cash at Bank of England	63,756,371	2	5
.. Cheques on other Banks *in transitu*	2,001,486	12	7
,, Money at Call and at Short Notice	65,809,169	12	4
,, Investments :—			
War Loans, at cost (of which £432,979 15s. is lodged for Public and other Accounts) and other British Government Securities ..	57,463,594	19	8
Stocks, Guaranteed by the British Government, India Stocks & Indian Railway Debentures	468,383	12	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, British Corporation Stocks ..	1,112,725	19	8
Colonial and Foreign Government Stocks & Bonds	1,410,465	18	10
Sundry Investment	1,145,481	1	6
,, Bills of Exchange	39,249,296	3	2
	232,416,975	1	9
,, Advances on Current and other Accounts ..	99,213,614	15	6
,, Advances on War Loans	14,218,201	2	1
,, Liabilities of Customers for Acceptances ..	13,145,849	2	11
,, Bank Premises, at Head Office and Branches ..	3,762,127	6	7
,, Belfast Bank Shares :—			
50,000 £12 10 0 Old Shares £2 10 0 paid			
150,000 £12 10 0 New Shares £2 10 0 paid			
Cost £1,237,500 0 0			
Less part Premium on Shares issued .. 477,810 0 0			
	759,690	0	0
	£363,516,657	8	10